OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2901

# Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

## RHAN 3

## Absenoldeb mabwysiadydd

**Amodau rhagnodedig**

**14.** At ddibenion adran 26(1) o'r Mesur, yr amodau rhagnodedig yw bod yr aelod—

(a) yn fabwysiadydd i'r plentyn; a

(b) yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd o'r dyddiad y mae'r aelod yn bwriadu i'r cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd ddechrau.

**Rhychwant yr hawl i absenoldeb mabwysiadydd**

**15.** Mae gan aelod hawl i ddwy wythnos olynol o absenoldeb mabwysiadydd.

**Pryd y caniateir cymryd absenoldeb mabwysiadydd**

**16.** Ni chaniateir cymryd absenoldeb mabwysiadydd ond os yw'n cael ei gymryd yn ystod y cyfnod—

(a) sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r plentyn yn cael ei leoli gyda'r aelod ar gyfer ei fabwysiadu; a

(b) sy'n dod i ben 56 o ddyddiau ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Aelod i ddewis dyddiad dechrau'r absenoldeb mabwysiadydd**

**17.** Ar yr amod y bydd y cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd yn dod i ben o fewn y cyfnod a ragnodir gan reoliad 16, caiff aelod ddewis ar ba ddyddiad y bydd ei absenoldeb mabwysiadydd yn dechrau.

**Diddymu absenoldeb mabwysiadydd**

**18.** Caiff aelod ddiddymu cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd o dan yr amgylchiadau canlynol—

(a) nid yw'r cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd wedi dechrau hyd yn hyn; a

(b) mae'r aelod wedi hysbysu'r pennaeth gwasanaethau democrataidd yn ysgrifenedig o'i fwriad i ddiddymu'r absenoldeb.

**Dehongli'r Rhan hon**

**19.**—(1) Yn y Rhan hon—

ystyr "asiantaeth fabwysiadu" *("adoption agency")* yw corff y caniateir cyfeirio ato fel asiantaeth fabwysiadu yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**);

ystyr "mabwysiadydd" *("adopter")*, mewn perthynas â phlentyn, yw aelod sydd wedi ei baru â phlentyn ar gyfer ei fabwysiadu, neu mewn achos pan fo dau aelod wedi eu paru ar y cyd, pa un bynnag ohonynt sydd wedi dewis bod yn fabwysiadydd y plentyn at ddibenion y Rhan hon; ac

ystyr "plentyn" *("child")* yw person sydd o dan ddeunaw mlwydd oed, neu a oedd o dan yr oedran hwnnw pan gafodd ei leoli gyda mabwysiadydd ar gyfer ei fabwysiadu.

(2) At ddibenion y Rhan hon mae aelod wedi ei baru â phlentyn ar gyfer ei fabwysiadu pan fo asiantaeth fabwysiadu yn hysbysu'r aelod hwnnw o'i phenderfyniad bod yr aelod yn rhiant mabwysiadol addas ar gyfer y plentyn, p'un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â pherson arall.

(**1**) 2002 p.38.